


FFURFLENNI'R SYSTEM REOLI IECHYD A DIOGELWCH		Ffurflen	F004
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Rhestr Wirio ar gyfer Archwiliad Iechyd a Diogelwch	Rhifyn	1
		Dyddiad	Tachwedd 2016
		Tudalen	1 o 3


Mae'r rhestr wirio isod yn cynnig fframwaith i Gyfadranau ac Adranau Gwasanaeth Proffesiynol adolygu'r trefniadau iechyd a diogelwch mewn ardaloedd penodol. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr, a bydd angen ystyried agweddau eraill ar gyfer ardaloedd pwrpasol (e.e. gweithdai, labordai, gofod perfformio, etc.). Argymhellir defnyddio'r rhestr wirio yn rheolaidd (ac yn amlach mewn ardaloedd risg uchel), a bod camau i gywiro diffygion yn cael eu neilltuo i ofal unigolion yn unol â dyddiadau cau a fframweithiau amser penodol.

Nid yw bodloni'r rhestr wirio iechyd a diogelwch yn golygu bod yr ardal sy'n cael ei harolygu yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, ond gall ddarparu fframwaith ar gyfer ystyriaethau o ddydd i ddydd.

Ar gyfer pryderon penodol, dylai cydweithwyr gysylltu â'r Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd, hasstaff@aber.ac.uk am gyfarwyddyd.

Adeilad	
Ardaloedd a archwiliwyd	
Meddianwyr yr Ardaloedd	
Cyfadran / Adran	
Archwiliwyd gan	
Dyddiad	


Amgylchedd Cyffredinol			
<i>Eitem</i>	<i>Ie</i>	<i>Na</i>	<i>Sylwadau / Camau</i>
A yw'r Poster Iechyd a'r Gyfraith a'r Tystysgrifau Yswiriant Cyflogwyr ac Atebolrwydd Cyhoeddus diweddaraf yn cael eu harddangos mewn man amlwg?			
A yw'r amodau gwaith cyffredinol yn dderbyniol e.e. tymheredd, sŵn, golau, awyru, etc.?			
A yw'r adeilad mewn cyflwr da, e.e. lloeriau, grisiau, ffenestri, etc.?			
A yw'r canllawiau ar gyfer y grisiau yn ddiogel ac mewn cyflwr da?			
A yw'r holl ddrysau tân yn cael eu cadw ar gau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, yn hytrach na chael eu cadw ar agor gyda phlocyn?			
Cynnal a chadw Cyffredinol			

FFURFLENNI'R SYSTEM REOLI IECHYD A DIOGELWCH		Ffurflen	F004	
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Rhestr Wirio ar gyfer Archwiliad Iechyd a Diogelwch		Rhifyn	1
			Dyddiad	Tachwedd 2016
			Tudalen	2 o 3

<i>Eitem</i>	<i>Ie</i>	<i>Na</i>	<i>Sylwadau / Camau</i>
A yw'r ardal yn lân ac yn daclus?			
A yw eitemau yn cael eu storio'n ddiogel, h.y. eitemau sy'n cael eu defnyddio yn rheolaidd / eitemau trwm yn cael eu storio mewn man isel?			
A yw llwybrau cerdded / ffyrdd o ddianc yn glir ac allanfeydd tân yn glir o rwystrau a pheryglon baglu			
A oes digon o le i storio?			
A oes eitemau y gellid cael gwared ohonynt yn rhywle arall?			

Gweithfannau / Cyfarpar Sgrin Arddangos			
<i>Eitem</i>	<i>Ie</i>	<i>Na</i>	<i>Sylwadau / Camau</i>
A yw holl aelodau'r staff wedi cwblhau ac adolygu eu Hasesiadau Cyfarpar Sgrin Arddangos yn llawn?			
A oes modd addasu pob cadair a monitor?			
A yw'r ardaloedd o dan y gweithfannau, ac o'u hamgylch, yn glir o rwystrau?			
A yw'r staff yn cael unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â defnyddio Cyfarpar Sgrin Arddangos?			

Cyfarpar Trydanol / Cyffredinol			
<i>Eitem</i>	<i>Ie</i>	<i>Na</i>	<i>Sylwadau / Camau</i>
A yw'r holl gyfarpar trydanol wedi cael Prawf Dyfeisiau			

FFURFLENNI'R SYSTEM REOLI IECHYD A DIOGELWCH		Ffurflen	F004	
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Rhestr Wirio ar gyfer Archwiliad Iechyd a Diogelwch		Rhifyn	1
			Dyddiad	Tachwedd 2016
			Tudalen	3 o 3

Cludadwy yn ystod y 12 mis diwethaf?			
A yw'r ardal yn cynnwys eitemau anawdurdodedig, e.e. heb farciau CE, gwresogyddion personol, etc.?			
A yw'r defnydd o geblau estyniad yn cael ei leihau cymaint â phosibl?			
A yw'r holl geblau trydanol wedi eu gosod i osgoi peryglon baglu?			

Gweithdrefnau Brys			
<i>Eitem</i>	<i>Ie</i>	<i>Na</i>	<i>Sylwadau / Camau</i>
A yw'r Hysbysiadau Gweithredu yn achos Tân yn dangos y manylion cywir ar gyfer Mannau Ymgynnull?			
A yw cynnwys y blwch/blychau Cymorth Cyntaf yn llawn ac yn gyfredol?			
A oes gan yr holl Swyddogion Tân gerdyn o'r adeilad a siaced sy'n hawdd i'w gweld?			
A oes nifer priodol o aelodau staff wedi'u hyfforddi ar gyfer Cymorth Cyntaf yn yr ardal?			
A yw'r holl ddiffoddwyr tân yn gyfan ac yn y mannau priodol?			

Sylwadau Ychwanegol / Arsylwadau